

"Ble fedra i ddarganfod canllawiau am amodau gwaith athrawon?"

Mae'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (*School Teachers' Pay and Conditions Document*) yn ddogfen sy'n cofnodi beth sy'n ddisgwyliedig gennych chi fel athro a'r hawliau sydd gennych. Mae holl ofynion y ddogfen yn berthnasol i athrawon sy'n gweithio mewn ysgol a gynhelir gan Awdurdod Lleol neu athrawon a gyflogir gan Awdurdod Lleol, fel athro, ar delerau'r ddogfen. Mae'r Ddogfen yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol.

I lawrlwytho copi o'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol [cliciwch yma](#).

Mae'r Llyfr Bwrgwyn (Burgundy Book) yn cynnwys rai amodau a thelerau a gytunwyd gan yr Awdurdodau Lleol ac sydd yn gyffredin, felly, i athrawon ysgolion a gynhelir neu rhai a gyflogir fel athrawon gan Awdurdod Lleol, e.e. cyfnod notis i adael swydd. Nid yw'r llyfr wedi cael ei ddiweddarau ers rhai blynyddoedd ac mae'r gyfraith wedi newid mewn sawl maes yn y cyfamser, e.e. hawliau rhieni. Yn yr achosion hynny os mae'r telerau cyfreithiol yn well y rheini sydd yn weithredol; pan fydd telerau'r Llyfr Bwrgwyn yn well, y rheini sydd yn weithredol.

Mae UCAC hefyd wedi paratoi taflen wybodaeth sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i athrawon am eu hamodau gwaith: Amodau Gwaith Athrawon

Am delerau'r Llyfr Bwrgwyn byddai'n well siarad gyda'ch swyddog maes.

Am sgwrs bellach, cysylltwch ag UCAC ar 01970 639 950.